

BywydCampws

Datganiad Gwasanaeth

Rydym yn deall bod angen i ni eich cefnogi mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn i chi allu mwynhau eich amser yn y Brifysgol i'r eithaf.

Rydym yn cynnig cyngor a gwasanaethau cymorth diduedd, anfeirniadol ac am ddim i bob myfyriwr mewn amgylchedd hamddenol, cyfeillgar a chyfrinachol. Dewch i'n gweld am gymorth arbenigol gyda Chymuned, Cydraddoldeb, Ffydd, Rhyngwladol, Arian, Cyfranogiad a Llesiant.

Ein Gweledigaeth

Caiff myfyrwyr eu hysbrydoli a'u cefnogi i gymryd rhan mewn profiad trawsnewidiol yn y brifysgol sy'n llywio eu dealltwriaeth datblygol o'i hunain, y gymuned a'u cyfraniadau mewn cymdeithas fyd-eang.

Ein Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw addysgu myfyrwyr, ymgysylltu â'r gymuned, a chyfoethogi profiad Prifysgol Abertawe. Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu cyfres o wasanaethau cyngor, arweiniad a chymorth sy'n cynorthwyo ac yn grymuso myfyrwyr i gyflawni eu potensial addysgol uchaf; cael gwared ar rwystrau i ddysgu; cryfhau parodrwydd i ddysgu; a chynnal cymuned ddiogel ac iach Prifysgol Abertawe.

Ein Gwerthoedd

Mae BywydCampws yn gweithredu'n unol â set ddiffiniedig o werthoedd craidd, a disgwylir i'n staff allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rôl o ddydd i ddydd. Ein gwerthoedd:

Rydym yn Broffesiynol

Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.

Rydym yn Cydweithio

Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.

Rydym yn Ofalgar

Rydym yn derbyn cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.

Gwasanaethau BywydCampws

Mae BywydCampws yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Myfyrwyr. Mae Gwasanaethau BywydCampws yn cynnwys y canlynol:

Cymuned
@CampusLife

Cydraddoldebau
@CampusLife

Ffydd
@CampusLife

Rhyngwladol
@CampusLife

Arian
@CampusLife

Cyfranogiad
@CampusLife

Llesiant
@CampusLife

Ein Gwasanaethau

- Mae BywydCampws yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr, staff a rhanddeiliaid.
- Mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu gan staff sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n gymwys i safonau a gydnabyddir yn genedlaethol.
- Ein nod yw darparu cymorth amserol a hygyrch i'r holl fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Abertawe.
- Ein bwriad yw cynnig gwasanaethau cynhwysol o safon uchel, sy'n cydnabod amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i ddarparu ar gyfer gwahanol anghenion myfyrwyr.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Ddarparu gwasanaeth cyfeillgar, dangos parch a sensitifrwydd i anghenion myfyrwyr.
- Cynnig amgylchedd diogel, taclus a chyfforddus.
- Trin pawb yn deg – gan ddangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Ymdrin â'ch ymholiadau a'ch gofynion yn gywir, yn brydlon ac yn effeithlon.
- Ein nod yw eich gweld ar amser bob amser pan fydd gennych apwyntiad, ac os na allwn wneud hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi pam.
- Parchu eich cyfrinachedd.
- Ceisio ateb eich ymholiad ar y pwynt cyswllt cyntaf. Pan nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn gwneud atgyfeiriadau effeithiol i dimau neu adrannau eraill.
- Darparu cyngor a gwybodaeth glir a chywir drwy gyfathrebu ar y we, drwy e-bost, yn ysgrifenedig, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.
- Darparu cymorth arbenigol rhagorol drwy ein staff sy'n gymwysedig yn broffesiynol, yn gymwynasgar ac yn gwrtais.
- Rydym wedi ymrwymo i barhau i feithrin arbenigedd a sgiliau ein timau.
- Gweithio i sefydlu safonau gwasanaeth, a monitro ein perfformiad drwy eich adborth.

Cyfrinachedd a Diogelu Data

Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir i'n gwasanaethau yn parhau'n gyfrinachol ac mae'n ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Diogelu Data. Eithriadau yw'r rhai sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, megis materion sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, mewn achosion o berygl uniongyrchol iddynt eu hunain neu i eraill neu mewn

achosion lle mae unigolion yn rhan neu wedi bod yn rhan o weithgareddau troseddol fel terfysgaeth neu fasnachu cyffuriau. Mae nifer o resymau cyfreithlon dros ddatgelu gwybodaeth er mwyn atal niwed i chi'ch hun neu i eraill.

Mae BywydCampws yn cydnabod, o ganlyniad i ddarparu gwasanaethau i fyfyrwyr, y bydd yn derbyn 'Data Categori Arbennig' sy'n ymwneud â myfyriwr a thrydydd partïon eraill. Ym mhob achos, byddwn yn sicrhau bod yr holl ddata o'r fath yn cael eu trin, eu prosesu a'u storio yn unol â [Pholisi Diogelu Data Prifysgol Abertawe](#).

Datganiad Preifatrwydd BywydCampws

Mae BywydCampws yn cynnwys saith tîm sy'n prosesu eich data mewn ffyrdd gwahanol, gan ddibynnu ar y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i fyfyrwyr. Am ragor o wybodaeth am sut a pham y caiff eich data eu casglu a'u defnyddio, darllenwch ein Datganiad Preifatrwydd BywydCampws [yma](#).

Adborth

Rydym yn gwerthfawrogi adborth gan fyfyrwyr, cydweithwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae eich barn, boed yn dda, yn ddrwg neu'n cwestiynu, yn bwysig i ni. Helpwch ni i wella ein gwasanaethau'n barhaus drwy gynnig eich sylwadau a'ch awgrymiadau drwy e-bost neu ar-lein [yma](#), ac ymateb i'n ceisiadau am adborth drwy arolygon rheolaidd a sesiynau grwpiau ffocws.

Asad Rahman
Pennaeth BywydCampws
campuslife@abertawe.ac.uk
01792 602 000

BywydCampws / StudentLife
Gwasanaethau Myfyrwyr / Student Services
Prifysgol Abertawe | Swansea University
Adeilad Talbot / Talbot Building
Parc Singleton | Singleton Park
Abertawe | Swansea
SA2 8PP